**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Cynghorydd Andrew Morgan
Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol
Rhondda Cynon Taf

9 Mai 2023

Annwyl Andrew,

Fel y byddwch yn gwybod, rhoddodd y Cynghorydd Mark Norris dystiolaeth i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 4 Mai fel rhan o'n hymchwiliad i drefniadau cyllido ar ôl ymadael â'r UE. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Mark am roi o'i amser i gymryd rhan yn y sesiwn hynod ddefnyddiol hon.

Un o'r pynciau a drafodwyd oedd yr heriau a nodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o ran y ffordd y caiff y Gronfa Ffyniant Gyffredin ei gweithredu ar sail ranbarthol. O gofio bod y Cynghorydd Norris yn gymharol newydd yn ei rôl, awgrymodd y byddech chi mewn sefyllfa well i roi rhagor o fanylion i ni am y mater hwn.

A fyddech cystal ag amlinellu'r heriau sy'n wynebu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ogystal â rhannu gwybodaeth am unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ar y materion hyn?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 19 Mai.

Cofion cynnes,

Paul Davies MS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**